

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd ar
Zoom
Nos Fawrth, Mawrth 15, 2022 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cyngorwyr: Karen G. Goswell (Cadeirydd), Gerallt Griffith, Llion Rh. Williams, Peredur Jenkins, Geraint Evans, Barry Jones, Huw Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

2. Ymddiheuriadau: Rhun Prys Jones, Emlyn Roberts, Mordaf Roberts a Meurig Ashton.

3. Datgan diddordeb.

Doedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 15, 2022

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion, Chwefror 15, 2022

Eitem 9.a. Rhoddwyd y rhybudd am 'Hysbysiad am Gwblhau Archwiliad' ar ein gwefan ac ar yr hysbysfyrdau ar 17/2/2022.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (24/2/2022) oddi wrth Geo Smart Decisions yn Abergynolwyn. Maent yn gweithio ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu Cynllun Coedwig newydd ar gyfer ardal Rhydymain. Amgáu mae dogfen drafft gydag amcanion ar gyfer y cynllun ac os mae sylwadau, iddynt eu hanfon i Tecwyn.Evans@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk erbyn Mawrth 23, 2022.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (28/2/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd bydd yn cael ei gynnal ar 9/3/2022 am 7.00yh ar Zoom. Siaradwr bydd Mr Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd. Amgáu mae Agenda'r cyfarfod, a Chofnodion cyfarfod 8/12/2021.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 15, 2022

O'r cyfarfod 8/12/2021 cafwyd wybod roedd cynrychiolydd o Trafnidiaeth Cymru a chynrychiolydd o Cymorth Cynllunio Cymru yn bresennol. Roedd Trafnidiaeth Cymru yn son am Metro Gogledd Cymru sy'n rhedeg ar hyd arfordir y gogledd. Roedd Cymorth Cynllunio Cymru yn rhoi gwybod mi allent helpu cynghorau cymuned i gasglu tystiolaeth ynglŷn â cheisiadau cynllunio. O'r cyfarfod cafwyd wybod mae rhai cynghorau cymuned yn cael hi'n anodd apwyntio clerod.

Ynglŷn â cheisiadau cynllunio mae gan Gwynedd dau sefydliad yn delio gyda cheisiadau sef Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

c. Dogfennau a llythyr (10/3/2022) oddi wrth Swyddog Canlyniadau, Cyngor Gwynedd ynglŷn ag Etholiadau Cynghorau Tref / Cymuned bydd yn cael ei gynnal ar Mai 5, 2022. Mae angen dosbarthu'r paciau enwebu sy'n amgau i'r aelodau sy'n dymuno bod yn ymgeiswyr yn yr etholiad. Bydd angen eu dychwelyd rhwng 21/3/22 a 4:00yh 5/4/22 i Swyddfa'r Cyngor, Dolgellau neu trwy e-bost enwebiadau@gwynedd.llyw.cymru.

Anfonwyd y wybodaeth i'r aelodau.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Dim mater angen sylw.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (17/2/2022) oddi wrth Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'

b. Llythyr (10/3/2022) oddi wrth Teenage Cancer Trust. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'

c. Llythyr (28/2/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod beth maent yn eu gwneud. Amgáu mae ffurflen Aelodaeth yn gwahodd y Cyngor i adnewyddu ei aelodaeth am y cyfnod 2022 / 2023. Tâl Aelodaeth yw £149.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd talu'r aelodaeth.

ch. Llythyr (24/2/2022) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol Llywodraeth gyda'u Hadroddiad Blynyddol Chwefror 2022 ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-2023 sy'n weithredol o 1 Ebrill.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 15, 2022

O'r adroddiad, Adran 13 sy'n berthnasol i gynghorau tref a chymuned.

1. Taliadau tuag at gostau a threuliau:

Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w haelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau. Gall unigolyn wrthod derbyn y taliad £150 os ydynt yn dymuno a gwneud hynny trwy ysgrifennu'n bersonol at y swyddog priodol.

2. Ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth: Gall cyngorau dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy, sef 45c y filltir.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd anfon ffurflen i'r aelodau yn holi os maent am wrthod y taliad £150.

d. Llythyr (4/3/2022) oddi wrth Un Llais Cymru. Amgáu mae manylionn cyflog i glercod o Ebrill 1, 2021.

Cyflog presennol y Clerc yw £1,533.60 y flwyddyn, h.y. £10.65 x 12awr x 12mis. Mae'r cyflog ar bwynt SCP 8, £10.65 yr awr. Taliad misol i'r Clerc: £102.40; taliad misol i Cyllid a Thollau EM: £25.40.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd codi'r cyflog i £10.84 yr awr ar bwynt SCP 8. Penderfynwyd hefyd codi'r oriau i 18 awr. Bydd y cyflog yn £10.84 x 18awr x 12mis = £2,341.44. Bydd angen i E.W. Owen a'i Chwmni rhoi'r taliad misol fydd i'r Clerc, a Cyllid a Thollau EM.

dd. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 28/2/2022: £1,141.43.

Balans yn y banc ar 28/2/2022: £8,195.40. (28/2/2021: £7,441.09.).

9. Archwilio

Doedd dim adroddiad.

10. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Cafwyd wybod hon fydd cyfarfod olaf Peredur fel cynghorydd y gymuned ar Cyngor Gwynedd. Roedd Peredur yn ddiolchgar i'r aelodau'r Cyngor Gymuned am eu ffyddlondeb i'r cyngor ac am eu diddordeb ym materion y gymuned. Roedd yr aelodau yn ddiolchgar i Peredur am fod yn ffyddlon i'r Cyngor Cymuned ac yn cymryd ymlaen materion oedd angen sylw. Roedd y Cyngor Cymuned yn falch o glywed roedd am roi ei enw ymlaen fel aelod o'r Cyngor.

11. Materion yr Aelodau

- a. Holwyd Priffyrdd (18/2/2022) os mae'r rhiw ar ffordd Station Drwsynant yn cael blaenoriaeth adeg graeanu ffyrdd fel sy'n cael ei wneud ar y ffordd i Aran Hall, Rhydymain. Os nad ydyw, iddynt ystyried bod y rhiw yn cael blaenoriaeth adeg graeanu ffyrdd.
- b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen trwsio canllaw bont sydd rhwng ffordd Hermon – Abergeirw a Tyddyn-du. Hefyd, trwsio canllaw bont sydd ar ffordd / llwybr rhwng Tyddyn-du a Cae-poeth.
- c. Os bydd sefyllfa yn ganiatáu bydd cyfarfod nesaf yn Neuadd Rhydymain.

Llofnod:

Dyddiad:
